



Pobl Dduw

Chwe Gwasanaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd

Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Wendy Swan
Ymddiriedolaeth Agathos

Ebrill 2012



Nod

Paratowyd y gyfres hon o wasanaethau ar gyfer addoliad ar y cyd mewn ysgolion cynradd.

Cynnwys

Mae pob gwasanaeth wedi ei saernio o gwmpas stori o "Beibl Newydd y Storiwr" sef cyfieithiad Cynthia Davies o lyfr Bob Hartman a Krisztina Kállai Nagy (Cyhoeddiadau'r Gair) ISBN: 9781859946152, felly bydd angen copi o'r Beibl yma arnoch.

Ceir nod clir ar gyfer pob gwasanaeth:

- Y Llwyn yn Lloggi:** Dysgu am ein cymeriad a'n gwendidau a sylweddoli bod Duw yn gweithredu drwy bobl gyffredin fel ni.
- Samson a Delila:** Meddwl am gadw addewidion a phwy i rannu cyfrinach â nhw.
- Elias a'r Cigfrain:** Sylweddoli bod Duw yn darparu ar gyfer y rhai mae'n eu galw.
- Heseceia'n Ymddiried yn Nuw:** Deall bod Duw yn gallu iacháu, a phwysigrwydd gweddi.
- Y Bechgyn a Hoffai Ddweud Na:** Clywed am ffyddlondeb Duw i'r rhai sy'n cadw eu bywyd yn lân. Meddwl am gadw'n ffyddlon i beth sy'n iawn a chadw rheolau da ymhob sefyllfa.
- Y Dynion a Hoffai Ddweud Na:** Meddwl am wneud dewisiadau anodd dan bwysau gan eraill. Rhyfeddu at wyrthiau a nerth Duw.

Yn ogystal, ceir rhestr o'r adnoddau y bydd arnoch eu hangen, syniadau sut i gyflwyno'r stori, cyflwyniad, clo, ac amser i feddwl neu weddi.

Paratoi

Mae gofyn darllen trwy'r deunydd yn ofalus, gan feddwl am y plant y byddwch yn eu harwain mewn addoliad ar y cyd, am drefn yr ysgol, sut fath o ystafell y byddwch ynddi a pha adnoddau fydd ar gael yno e.e. cyfrifiadur, taflunydd a sgrîn.

Caneuon

Argymhellir caneuon o'r llyfrau canlynol:

- "Tyrd i Ddathlu" (Curiad/ Coleg y Bala)
ISBN: 9781897664438 (1897664435)
- "Y Cyntaf a'r Olaf" (Curiad/ Eglwys
Bresbyteraidd Cymru)
ISBN: 9781897664070 (1897664079)

Cyngor a chefnogaeth

Os hoffech gael cyngor ynglŷn ag arwain addoliad ar y cyd mewn ysgol, neu wybodaeth bellach am adnoddau defnyddiol ar gyfer arwain gwasanaeth, cysylltwch â Choleg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuencid Eglwys Bresbyteraidd Cymru: 01678 520565 neu colegybala@ebcpw.org.uk

1. Y Llwyn yn Llosgi

Galw Moses: Exodus 1 - 2

Nod

Dysgu am ein cymeriad a'n gwendidau a sylweddoli bod Duw yn gweithredu trwy bobl gyffredin fel ni.

Bydd angen

- Tîm o dri, neu drefnu i gael dau blentyn o'r ysgol i gymryd rhan. Mae chwarter awr o ymarfer yn ddigon fel arfer.
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr', Bob Hartman a Krisztina Kállai Nagy
- Copi o eiriau Moses a Duw o'r stori i'r cymeriadau eu darllen (o'r stori).
- Gwisg: gwisg syml dyn o Israel
- Ffon fugail
- Perth (llun ar ddarn mawr o gardfwrdd neu ddarnau o wrych gyda 'fflamau' o bapur crêp oren a melyn)
- Neidr (tegan)
- Rhywbeth i wneud llais yn ddwfn - Meic a seinydd, tegan, bwced plastig...
- Llyfr / CD 'Tyrd i Ddathlu' a geiriau'r gân 'Nid Mega Arwyr' (Rhif 18)

Actio'r stori

Llwyn yn Llosgi, tud 30 "Beibl Newydd y Storiwr"
Mae'n dda cael rhywun gyda llais dwfn naturiol ar gyfer y stori yma. Mae cryfhau neu chwyddo'r llais (amplification) yn creu effaith wych ac yn dal sylw'r plant. Mae cadw'r person sy'n siarad yn ddirgel yn ategu at y gwasanaeth.

Set: Y llwyn wedi'i osod o flaen rhywbeth addas i guddio tu ôl iddo e.e. piano, llenni...

Moses ar ochr arall y llwyfan i'r berth i gychwyn, **Llais Duw** yn cuddio, **Adroddwr** i un ochr, yn weladwy.

Moses yn actio a dweud geiriau ei gymeriad wrth i'r Adroddwr adrodd y stori a **Llais Duw** yn siarad yn uchel y tu ôl i'r llwyn.

Awgrym: pan fydd Moses yn taflu'i ffon ar y llawr, mi fedr 'Llais Duw' wneud i'r neidr ymddangos o'i fan cuddio.

Cyflwyniad

Oes rhywun wedi gweld y ffilm 'Prince of Egypt'? Os ydych chi, byddwch yn gyfarwydd â'r stori heddiw, sef rhan o hanes pobl Dduw o'r Hen Destament.

Mae pobl Israel wedi symud i fyw i wlad yr Aifft oherwydd newyn mawr. Doedd ganddyn nhw ddim bwyd. Mae brenin yr Aifft wedi troi pobl Dduw yn gaethweision ac yn eu trin yn greulon iawn. Heddiw fe glywn ni sut y cafodd bugail gyda chefnidir trist iawn gyfle i gychwyn eto.

Actio'r Stori: Llwyn yn Llosgi, tudalen 30 "Beibl Newydd y Storiwr"

Cloi

Pa fath o bethau sy'n gwneud arweinydd da? Pa sgiliau y mae ar rywun eu hangen i arwain pobl? Ymateb: e.e. pobl eraill yn gwrandao arno, person cadarn y gellir ymddiried ynddo.

Doedd Moses ddim yn credu bod ganddo'r sgiliau na'r hyder i arwain y bobl, ond fe roddodd Duw bob peth oedd arno'i angen iddo. Fe wnaeth Duw wyrthiau i ddangos ei fod gyda Moses, ac fe roddodd rywun i siarad drosto gan ei fod yn swil.

Weithiau, mae gofyn i ni wneud pethau anodd. Mae pob un ohonom yn siŵr o wynebu sefyllfa sy'n codi braw arnom rywbryd. Efallai y byddwn yn gorfod cyflwyno gwaith yn yr ysgol, neu sefyll i fyny dros ffrind sydd mewn angen, neu hyd yn oed siarad dros Dduw rhyw ddydd!

Mae Duw yn addo rhoi nerth a chymorth i'w ddilynwyr pan maen nhw mewn angen.

Tybed a oes arnoch chi angen cymorth gyda sefyllfa anodd heddiw?

Amser i feddwl

Rhowch eich dwylo hefo'i gilydd, a caewch eich llygaid ...

Cyn imi weddiö, cymerwch funud i feddwl am unrhyw sefyllfa anodd sy'n eich wynebu, neu yn wynebu ffrind i chi. Oes rhywun allech chi ofyn iddyn nhw am gymorth? Allech chi gynnig help i rywun arall?

Gweddi

Diolch, Dduw, dy fod Ti wedi defnyddio pobl gyffredin fel ni i wneud pethau rhyfeddol. Helpa ni heddiw i fod yn ddewr mewn sefyllfa anodd, i ofyn am help os oes angen ac i gynnig help i'n ffrindiau. Amen

Cân

'Nid Mega Arwyr Mega Ddewr yw Pobl Duw'
(“Tyrd i Ddathlu”, Rhif 18)

2. Samson a Delila

Nod

Meddwl am gadw addewidion a phwy i rannu cyfrinach â nhw.

Bydd angen

- Tîm o dri, (neu drefnu i gael dau ddisgybl hyderus i actio. Mae chwarter awr o ymarfer yn ddigon fel arfer).
- 4-6 disgybl i fod yn Philistiaid.
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr'
- Copi bob un o eiriau'r cymeriadau (o'r stori).
- Llyfr / CD 'Tyrd i Ddathlu' a geiriau'r gân 'Crea ynof galon lân'(Rhif 5)
- Gwisg - dyn Israel, 4 x gwisg Israel i blant bach, 1 x dynes liwgar gyda chadwyni ac ati
- Rasel dynes (un disposable gyda'r gorchudd wedi ei ludo yn ei le)
- Wig gwallt hir

Actio'r stori

Samson a Delila, tud 44 'Beibl Newydd y Storiwr'

Set: Mainc neu res o gadeiriau fel gwely / soffa yn y blaen.

Awgrymiadau ar gyfer actio'r stori: Gawson ni hwyl fawr iawn yn cyflwyno'r stori yma. Plant o'r ddsbarth Meithrin oedd yn chwarae rhan y Philistiaid – eu hunig ran yw rhedeg allan i ddal Samson, a rhedeg yn ôl wedi'u dychryn y tri tro cyntaf.

Mae'n hwyl chwarae hyn yn debyg i Panto, gyda Delila fel Dynes Ddrwg a Samson yn dangos ei gyhyrau ac ati.

Fe wnaethon ni feimio'r llinyn bwa ac ati heb 'props'.

Cyflwyniad

Mae stori heddiw yn dod o'r Hen Destament. Mae'n digwydd yn ystod cyfnod pan oedd pobl Dduw yn cael eu harwain gan farnwyr – nid rhai

fel ar yr 'X-Factor' ond pobl ddoeth oedd yn gallu barnu ynglŷn â dadleuon rhwng y bobl a datrys eu problemau.

Cafodd un ohonynt ei ddewis yn arweinydd cyn iddo gael ei eni. Gofynnodd Duw i'w rieni addo peidio â thorri ei wallt na gadael iddo yfed gwin na chwrf cryf. Samson oedd enw'r bachgen. Pan dyfodd Samson yn ddyn, fe gadwodd yr addewidion yma. Roedd Samson yn gryf iawn, yn gryfach na neb o'i flaen nac ar ei ôl. Daeth yn enwog am guro gelynyon pobl Dduw, yn enwedig y Philistiaid.

Actio'r Stori: Samson a Delila, tudalen 44 "Beibl Newydd y Storiwr"

Cloi

Pam y collodd Samson ei nerth mawr?

Aros am atebion y plant, gan obeithio y bydd rhywun yn dweud "torri ei wallt".

O ble daeth nerth mawr Samson?

Aros am atebion y plant.

Os yw rhywun yn ateb 'ei wallt' dewiswch rywun gyda gwallt hir a gofyn beth yw eu henw.

Mae gan _____ wallt hir iawn. Mae'n rhaid ei bod hi/ fod o cyn gryfed â Samson felly... Ydi hynny'n wir?

Roedd gwallt hir Samson yn dangos ei fod yn cadw addewid arbennig i Dduw, a dyna pam ei fod mor gryf.

Ydych chi yn dda am gadw addewid? Beth am gadw cyfrinach?

Oedd Delila yn dda am gadw cyfrinach?

Mae'n brifo pan fo rhywun yn torri addewid, neu yn dweud eich cyfrinach wrth eraill.

Amser i feddwl

Rhowch eich dwylo hefo'i gilydd, a caewch eich llygaid ...

Cyn imi weddïo, cymerwch funud i feddwl a ydych chi yn dda am gadw addewid, neu fel Delila yn y stori yn barod i rannu cyfrinach a thorri'ch gair i'r rhai sy'n ymddiried ynoch chi – yn eich trystio.

Gweddi

Diolch Dduw fod stori Samson a Delila yn dangos inni pa mor bwysig yw cadw addewid, yn enwedig addewid i Ti. Helpa ni i fod yn ffrindiau da, dibynadwy, sy'n cadw ein haddewidion fel bod eraill yn gallu ymddiried ynom ni - ein trystio.

Cân

'Crea ynof galon lân' ('Tyrd i Ddathlu', rhif 5)

3. Elias a'r Cigfrain

Nod

Sylweddoli bod Duw yn darparu ar gyfer y rhai mae'n eu galw.

Bydd angen

- Tîm o dri, neu drefnu i gael dau ddisgybl hyderus i actio. Mae chwarter awr o ymarfer yn ddigon fel arfer.
- Disgybl i chwarae rhan y Brenin Ahab (dim geiriau)
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr'
- Copi o eiriau Elias (o'r stori).
- Llyfr / CD 'Tyrd i Ddathlu' a geiriau'r gân 'Mi gamaf 'mlaen' (Rhif 15)
- Gwisgoedd: dyn o Israel, Brenin
- Cigfrain

Actio'r stori

Elias a'r Cigfrain, tud 44 'Beibl Newydd y Storiwr'

Cigfrain: Mi wnes i 'brop' ar gyfer y stori yma trwy dorri amlinellid nifer o gigfrain o gerdyn du a'u hongian ar wialen bysgota.

Set: Rhywle i guddio gweithiwr y cigfrain e.e. tu ôl i biano / llenni

Awgrymiadau ar gyfer actio'r stori:

Eisteddodd Elias o flaen man cuddio'r cigfrain ar ôl smalio cerdded i'r ceunant. Cuddiwyd y cigfrain fel eu bod yn ymddangos a diflannu ar yr amser priodol yn y stori, gyda sŵn crawcian.

Cyflwyniad

Mae stori heddiw yn dod o'r Hen Destament. Yng nghyfnod y stori, roedd pobl Israel, sef teulu Duw, yn cael eu harwain gan frenin cas iawn.

Oes rhywun yn gwybod beth yw ystyr y gair 'proffwyd'?

Aros am atebion y plant.

Mae proffwyd yn berson sy'n cael neges gan Dduw ac yn ei rhannu gyda'r bobl. Mae hi'n swydd bwysig, ac weithiau'n un beryglus fel y clywn heddiw.

Actio'r Stori: Elias a'r Cigfrain, tudalen 58 'Beibl Newydd y Storiwr'

Cloi

Weithiau mae dewis bod yn ufudd i Dduw yn gallu bod yn anodd iawn. Efallai y bydd pobl yn ymateb yn gas, neu hyd yn oed yn ein bygwth, fel y gwnaeth y Brenin Ahab cas.

Trwy'r byd heddiw mae pobl yn dal i fod yn fodlon sefyll dros yr hyn maen nhw'n ei gredu, hyd yn oed pan fo rhai yn benderfynol o'u stopio.

Ac, fel Elias yn y stori, mae Cristnogion dros y byd yn dal i ddibynnu ar Dduw i'w helpu nhw pan fo'r sefyllfa yn anodd ac efallai'n teimlo'n amhosib.

Mae Duw yn dal i siarad trwy ei bobl ffyddlon er mwyn dod â gobaith a rhyddid i bawb sy'n gwrandao ac yn ymddiried ynddo.

Amser i feddwl

Rhowch eich dwylo hefo'i gilydd, a caewch eich llygaid ...

Cyn imi weddio, cymerwch funud i feddwl a ydych chi yn un sy'n sefyll dros beth sy'n iawn ac yn wir bob tro, neu yn un sy'n ceisio rhwystro'r gwir a thynnu rhai sy'n dangos ffydd i lawr.

Gweddi

Diolch Dduw fod stori Elias a'r Cigfrain yn dangos inni dy fod yn ffyddlon bob amser i'r rhai sy'n sefyll dros y gwir. Helpa ni i ddal at y gwir pan rydym yn wynebu anhawster neu fygythiad. Amen

Cân

'Mi gamaf 'mlaen', ('Tyrd i Ddathlu', rhif 15)

4. Heseceia'n Ymddiried yn Nuw

Nod

Deall bod Duw yn gallu iacháu, a phwysigrwydd gweddi.

Bydd angen

- Tîm o dri, neu drefnu i gael dau ddisgybl hyderus i actio. Mae chwarter awr o ymarfer yn ddigon fel arfer.
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr',
- Copi bob un o eiriau'r cymeriadau (o'r stori).
- Llyfr / CD 'Y Cyntaf a'r Olaf' a geiriau'r gân 'Ffrind i mi' (Rhif 1)
- Gwisg - dyn o Israel, brenin
- Gobennydd a blanced

Actio'r stori

Heseceia'n Ymddiried yn Nuw, tud 44 'Beibl Newydd y Storiwr'

Set: Mainc neu res o gadeiriau fel gwely / soffa yn y blaen.

Awgrymiadau ar gyfer actio'r stori:

Heseceia yn actio ei fod yn teimlo'n sâl ac yn mynd i'w wely.

Mae'n gweithio'n dda os medr Eseia gerdded i mewn ac allan gyda chyfrif y stori: "Un gris, dau ris. Tri gris ..."

Wrth i Heseceia ac Eseia wylio'r cysgod yn mynd yn ôl, gall Heseceia godi a neidio o gwmpas i ddangos ei fod yn iach eto.

Cyflwyniad

Oes rhywun yn cofio beth ddwedon ni oedd ystyr y gair proffwyd y tro diwethaf?

Aros am atebion y plant.

Negesydd rhwng Duw a'r bobl ydi proffwyd.

Yn aml iawn roedd negeseuon y proffwydi yn dod gyda rhybudd gan Dduw – newidiwch eich ffordd o fyw neu byddwch yn cael eich cosbi. Neges ddrwg i bobl ddrwg.

Mae neges y proffwyd Eseia heddiw yn wahanol i'r arfer – fedrwch chi weld y gwahaniaeth?

Actio'r Stori: Heseceia'n Ymddiried yn Nuw, tudalen 68 'Beibl Newydd y Storiwr'

Cloi

Oedd neges Eseia yn y stori yn newyddion drwg i berson drwg?

Aros am atebion y plant.

Neges ddrwg i berson da oedd gan Eseia.

Roedd Heseceia'n sâl, ac mae'r stori yn dangos inni fod pethau drwg fel afiechyd yn digwydd i bobl dda a phobl ddrwg. Doedd Heseceia ddim yn cael ei gosbi, a dydi afiechyd ddim yn arwydd bod person wedi gwneud rhywbeth drwg.

Mae'r stori yn dangos inni fod gan Dduw nerth dros bob sefyllfa ac anhawster, yn cynnwys afiechyd. Gall Duw iacháu, ac mae Duw eisiau inni weddio dros rai sy'n sâl.

Amser i feddwl

Rhowch eich dwylo hefo'i gilydd, a caewch eich llygaid ...

Cymerwch funud i feddwl am unrhyw un yr ydych chi'n ei nabod sy'n sâl heddiw. Efallai y buasech yn hoffi gweddio'n ddistaw i ofyn i Dduw eu gwneud yn well, fel y gwnaeth Eseia.

Gweddi

Diolch Dduw dy fod yn gofalu am bob un, boed yn dda neu'n ddrwg, ac am iti wrando ar ein gweddiau drostynt o hyd. Helpa unrhyw un ohonom a'n teuluoedd sy'n sâl heddiw i wella'n fuan. Amen

Cân

'Ffrind i mi' ('Y Cyntaf a'r Olaf', rhif 1)

5. Y Bechgyn a Hoffai Ddweud 'Na'

Nod

Clywed am ffyddlondeb Duw i'r rhai sy'n cadw eu bywyd yn lân. Meddwl am gadw'n ffyddlon i'r hyn sy'n iawn a chadw rheolau da ymhob sefyllfa.

Bydd angen

- Tîm o ddau neu dri, a threfnu i gael tri neu bedwar disgybl hyderus i actio. Mae chwarter awr o ymarfer yn digon fel arfer.
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr'
- Copi bob un o eiriau'r gwas a Daniel (o'r stori). Llyfr / CD 'Y Cyntaf a'r Olaf' a geiriau'r gân 'Bydd yr Arglwydd ei hun' (Rhif 13)
- Gwisg – Daniel a'i ffrindiau ym Mabydon, gwas y brenin
- Clipfwrdd gyda geiriau'r gwas ar un ochr a Bwydlen a llun mochyn arno ar yr ochr arall

Actio'r stori

Y Bechgyn a Hoffai Ddweud 'Na', tud 72 'Beibl Newydd y Storiwr'

Awgrymiadau ar gyfer actio'r stori:

Fe gawsom ni'r 4 ffrind yn ymateb i'w henwau gyda rhyw fath o ystum (mae'r plant wrth eu boddau'n gwneud hyn) ac yn plygu'u breichiau a dweud 'Na' pan ddarllenir "Bechgyn a Hoffai Ddweud 'Na'". Dysgodd y 3 ffrind eu geiriau, a dysgodd Daniel fersiwn fyr o'i eiriau ef.

Cyflwyniad

Weithiau, roedd proffwydi yn cyflwyno eu neges trwy yr hyn yr oedden nhw'n ei wneud yn ogystal â beth roedden nhw'n ei ddweud. Mae'r 4 bachgen yn ein stori heddiw yn dangos inni fod byw beth rydym yn ei gredu yn cyfleu neges yn glir, ac nad aeth yr un ohonyn nhw ymlaen i fod yn broffwydi enwog iawn.

Actio'r Stori: 'Y Bechgyn a Hoffai Ddweud 'Na', tudalen 72 'Beibl Newydd y Storiwr'

Cloi

Pwy sy'n gallu dweud un o reolau'r ysgol wrthyn ni?

Aros am atebion y plant gan obeithio clywed: 'bod yn garedig / dim bwlio' neu rhywbeth tebyg.

Ddylen ni anghofio'r rheolau yma wrth adael yr ysgol bob dydd? Sut y byddai'n edrych pe na baen ni'n cadw'r rheolau gartref ac yn ein cymuned?

Mae rheolau'r ysgol yna i gadw pawb yn ddiogel ac yn hapus, i'n helpu ni i fod yn ffrindiau da i'n gilydd ac i'n helpu i ddysgu.

Mae rheolau Duw hefyd wedi eu rhoi er mwyn inni fod yn ddiogel, yn hapus, yn ffrindiau da hefo'n gilydd ac yn ffrindiau da hefo Duw.

Doedd Daniel a'i ffrindiau ddim yn gwybod pam nad oedden nhw'n cael bwyta rhai mathau o fwyd, fel porc, ond roedden nhw'n caru Duw ac yn ymddiried ynddo ac yn gwybod ei fod yn dymuno'r gorau iddynt bob amser. Cadwodd Daniel a'i ffrindiau eu haddewidion fel pobl arbennig Duw ac fe gadwodd Duw nhw yn ddiogel, a'u bendithio. Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd i Samson pan dorrodd ei addewidion i Dduw?

Amser i feddwl

Cymerwch funud neu ddau i feddwl am eich bywyd yma yn yr ysgol, adref ac yn y llefydd eraill y byddwch yn mynd iddyn nhw. Yma yn yr ysgol rydyn ni i gyd yn ddiogel ac yn cael ein parchu, os yw'r rheolau yn cael eu cadw. Efallai eich bod chi, neu ffrind i chi, yn teimlo'n wahanol, yn llai diogel y tu allan i'r ysgol. Gallwch chi wneud gwahaniaeth mawr i'r byd o'ch cwmpas trwy fod yn ffyddlon a chadw at beth sy'n iawn ym mhob sefyllfa, fel y bechgyn o wlad Israel a aeth i fyw mewn gwlad ddiethr.

Gweddi

Diolch Arglwydd, am ein hysgol ddiogel. Helpa ni i fod yn ffyddlon i'r hyn sy'n iawn ble bynnag yr ydym, a pheidio â newid y rheolau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Amen

Cân

'Bydd yr Arglwydd ei hun' ('Y Cyntaf a'r Olaf', rhif 3)

6. Y Dynion a Hoffai Ddweud Na

Nod

Meddwl am wneud dewisiadau anodd dan bwysau gan eraill. Rhyfeddu at wyrthiau a nerth Duw.

Bydd angen

- Tîm o ddau neu dri, a threfnu i gael chwech neu saith disgybl hyderus i actio. Mae chwarter awr o ymarfer yn ddigon fel arfer.
- Llyfr 'Beibl Newydd y Storiwr',
- Copi o eiriau'r brenin.
- Llyfr / CD 'Y Cyntaf a'r Olaf' a geiriau'r gân 'Roedd hi'n amser pacio dillad' (Rhif 25)
- Gwisg: Y 3 ffrind (fel Babyloniaid), y Brenin, Angel, 2 filwr
- Defnydd Coch ac Oren neu 'prop' o fflamau

Actio'r stori

'Y Dynion a Hoffai Ddweud Na', tudalen 72 'Beibl Newydd y Storiwr'

Awgrymiadau ar gyfer actio'r stori:

Gellir naill ai wneud 'prop' trwy baentio fflamau ar gardfwrdd a'i roi i sefyll yn isel fel y gall y plant fynd y tu ôl iddo, neu gael darnau hir o ddefnydd coch ac oren a gofyn i ddau blentyn benlinio a'u chwifio i greu effaith fflamau.

Gosodwch eich 'fflamau' yn agos at fan addas lle gall yr angel guddio nes bod y 3 ffrind yn cael eu taflu i'r ffwrnais.

Y milwyr i syrthio'n farw wrth daflu'r 3 ffrind i'r ffwrnais.

Cyflwyniad

Ydych chi'n cofio tri ffrind Daniel yn y stori ddiwethaf, y 'Y Bechgyn a Hoffai Ddweud 'Na'? Tybed beth ddigwyddodd iddyn nhw wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn mewn gwlad ddieithr? Wnaethon nhw gofio cadw rheolau Duw? Wnaethon nhw ddal ati i addoli Duw yn unig, neu a wnaethon nhw ddilyn ffasiwn yr ardal ac addoli duwiau eraill? Gawn ni glywed yn ein stori heddiw.

Actio'r Stori: 'Y Dynion a Hoffai Ddweud Na', tudalen 72 'Beibl Newydd y Storiwr'

Cloi

1. Wrth chwarae gêm amser chwarae mae rhywun yn eich taro i'r llawr. Mae ffrind yn dweud "Gwthia nhw nôl!" Beth ddylech chi ei wneud?

2. Mae ffrind yn cael amser anodd yn y prawf mathemateg ac yn ceisio copïo eich atebion chi. Wnewch chi adael iddo/iddi?

Mae pob un ohonon ni yn gorfod dewis sut y byddwn ni'n ymddwyn bob dydd. Mae'n siŵr y bydd pawb yn cael ei demtio, rhywbryd, i ddewis gwneud rhywbeth sydd yn erbyn y rheolau neu hyd yn oed yn torri'r gyfraith.

Roedd Sadrach, Mesach ac Abednego yn ddynion oedd yn cadw at y gyfraith a gawson ni gan Dduw ac yn barod i sefyll dros beth oedd yn iawn, hyd yn oed pan oedd y brenin yn bygwth eu taflu i fflamau'r ffwrnais dân! Doedden nhw ddim yn gwybod a fyddai Duw yn eu hachub, ond roedden nhw'n credu bod Duw yn gallu gwneud unrhyw wyrth. A dyna yn union beth wnaeth Duw!

Amser i feddwl

Pan fydd plant eraill yn ymddwyn yn wael, yn torri'r rheolau neu'n bod yn gas, beth wnewch chi? Ydych chi'n barod i fod fel y tri ffrind ym Mablyon, yn sefyll dros y gwir a gwrthod plygu dan bwysau gan bobl eraill?

Gweddi

Diolch Arglwydd am sefyll dros y rhai sy'n sefyll drosot ti. Helpa ni i fod yn gryf pan fydd eraill yn ceisio ein plygu, fel ein bod ni yn dal i sefyll dros yr hyn sy'n iawn, hyd yn oed os yw pawb arall yn rhoi i mewn.

Cân

'Roedd hi'n amser pacio dillad' ('Y Cyntaf a'r Olaf', rhif 25)